

# Argymhellion y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i wella'r modd y gweithredir y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn yn y DU

## Argymhelliad 1

### Cynllun gweithredu cenedlaethol ar hawliau dynol

- 1 Mae'r EHRC yn argymhell y dylai Llywodraeth y DU fabwysiadu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Hawliau Dynol sy'n cynnwys camau cadarnhaol i weithredu argymhellion cyrff cytundebau'r Cenhedloedd Unedig (UN) a dulliau hawliau dynol gan gynnwys sylwadau casgliadol Pwyllgor yr UN ar Hawliau'r Plentyn.
- 2 Byddai hyn yn galluogi Llywodraeth y DU i:
  - weithredu'n llawer mwy strategol, gan sicrhau y byddai ei hymdrechion yn llawer mwy pwrpasol ac wedi'u cydlynu'n well yn Senedd y DU ac yn lleol
  - hwyluso'r gwaith o rannu mentrau sy'n cynnig yr arfer orau
  - gwella'r modd y mae'n mesur ac yn dangos tystiolaeth o gynnydd mewn hawliau dynol ar lawr gwlad, a
  - gwella cydlyniad, paratoi a chyflwyno adroddiadau gwladol yn brydlon i'r Cyngor ar Hawliau Dynol a chyrrff cytundebol.

## Argymhelliad 2

### Gwella statws y Confensiwn ar Hawliau Plant (CRC) mewn cyfraith a pholisi domestig y DU (Erthygl 3(1))

- 3 Gyda golwg ar sicrhau y bydd holl ddarpariaethau'r CRC yn gwbl effeithiol, yn enwedig y rhwymedigaeth dan Erthygl 3 (1) i les y plentyn fod yn brif ystyriaeth ym mhob gweithred sy'n ymwneud â phlant, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) yn argymhell y dylai Llywodraeth y DU ystyried a chyhoeddi

dewisiadau ar gyfer gwella statws y CRC mewn cyfraith ddomestig. Dylai wneud hynny fel rhan o ymgynghoriad eang ar gynigion ar gyfer Bil Hawliau, sy'n ceisio barn plant a phobl ifanc.

- 4 Dylai'r dewisiadau a ystyrir gynnwys:
- nodweddion fel Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a Deddf Plant a Phobl Ifanc (Yr Alban) 2014, sy'n gwella statws y CRC yng Nghymru a Lloegr;
  - mynediad at ddatrysiad domestig i blant sy'n honni bod eu hawliau dan y CRC wedi'u tramgwyddo;
  - dull craffu polisi a deddfwriaeth i sicrhau y cydymffurfir â'r CRC, a
  - dulliau cadarn i sicrhau bod gwneuthurywr polisi yn atebol pan ddangosir y bu i'w gweithrediadau a'r hyn na lwyddasant ei wneud dramgwyddo'r CRC.

### **Argymhelliad 3**

#### **Mynediad at gyfiawnder cyfraith sifil i blant yng Nghymru a Lloegr (Erthygl 12(2))**

- 5 Er mwyn sicrhau y bydd hawliau plant yn gwbl effeithiol wrth dderbyn gwrandawriad mewn achosion cyfreithiol a gweinyddol a effeithir arnynt yn unol â'r hyn a ddiogelir gan Erthygl 12 (2) o'r CRC, a sicrhau hawliau plant i beidio cael eu gwahaniaethu, ac i'w lles fod yn brif ystyriaeth dan erthyglau 2 a 3 o'r CRC, barn yr EHRC yw y dylai Llywodraeth y DU:
- fonitro effaith diwygiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd 2012 ar fynediad at gyfiawnder ar yr hawliau a ddiogelir gan y CRC, yn cynnwys mewnfudo nad yw'n lochesu, addysg, cyfraith carchar ac achosion cyfraith teulu preifat, a chynnal adolygiad o'r diwygiadau ar ôl eu gweithredu, cyn pen blwyddyn ers i'r UN a'r CRC eu harchwilio'n gyhoeddus;
  - adolygu gwaith y cynllun ariannu achosion eithriadol i sicrhau bod ei broses ymgeisio a'i feini prawf cymhwyso yn cynnig 'sicrwydd' hawliau dynol, yn unol â'r bwriad; a
  - dileu cynigion am brawf preswyllo wrth geisio am gymorth cyfreithiol sifil.

## Argymhelliad 4

### Trais yn erbyn plant yn y DU (Erthygl 19)

- 6 I sicrhau gwell cydymffurfiaeth a gweithrediad o Erthygl 19 o'r CRC yn y DU er mwyn diogelu'r plentyn rhag pob math o drais corfforol neu feddyliol, argymhella'r EHRC y dylai Llywodraeth y DU weithredu argymhellion ymchwiliad y Cydbwyllgor ar Hawliau Dynol i mewn i drais yn erbyn menywod a phlant (VAWG) yn cynnwys:
- sefydlu corff cydgordio amser llawn sydd ag adnoddau digonol ac sydd â strategaeth DU gyfan, cynllun gweithredu a chyllideb ganolog i ymdrin â VAWG; a
  - gweithredu strategaeth gynhwysfawr, gydlynol ac â chyllideb ddigonol ar anffurfio organau cenhedlu benywod, sy'n sicrhau y bydd sefydliadau perthnasol yn atebol.
- 7 Rhaid i Lywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig weithredu strategaethau cynhwysfawr a chydlynol i atal a brwydro yn erbyn VAWG, gyda monitro cadarn a dulliau o atebolrwydd i fonitro eu heffaith ac i sicrhau bod y ddarpariaeth o wasanaethau ar gael i ddioddefwyr.

## Argymhelliad 5

### Penderfyniadau ariannol a safon byw digonol i blant yn y DU (Erthyglau 3, 4, 26 a 27)

- 8 Gyda golwg ar ddefnyddio'r 'holl adnoddau posib sydd ar gael' i wireddu'n raddol holl hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol plant, yn unol ag Erthygl 4 y CRC ac i wella gweithredu Erthyglau 3, 26 a 27 o'r CRC, mewn perthynas â lles y plentyn a hawliau plant i nawdd cymdeithasol a safon byw boddhaol, argymhella'r EHRC y dylai Llywodraeth y DU weithredu argymhellion ein hadroddiad ar Benderfyniadau Ariannol Teg i'r Dyfodol, yn cynnwys:
- cymryd camau i wella cwmpas y dystiolaeth a'r dadansoddiad o'r Datganiad ar Effaith Cydraddoldebau a gyhoeddir law yn llaw â'r Adolygiadau o Wariant;
  - adolygu ei ddull ynghylch asesu effaith drwy ymestyn ei ddadansoddiad o effaith i gynnwys effaith gronnu penderfyniadau ynglŷn â phlant; a
  - monitro effaith mesurau'r Adolygiad o Wariant er mwyn cael gwell dealltwriaeth ynghylch ymhle y mae angen lliniaru, ac i fwydo gwybodaeth i'r camau nesaf o benderfyniadau ar wariant.

- 9 Wrth fodloni'r ddyletswydd gydraddoldeb benodol yng Nghymru i asesu effeithiau polisïau ac ymarferion ar gydraddoldeb, dylai Llywodraeth Cymru barhau i adeiladu ar yr argymhellion a wnaed gan yr EHRC yn ei adroddiad ar 'Ddull Llywodraeth Cymru o Asesu Effeithiau ei Chyllideb ar Gydraddoldeb'.
- 10 Yn benodol, dylai:
- roi mwy o ystyriaeth i'r angen am asesiadau effaith cronus o benderfyniadau cyllidol;
  - gwella ansawdd, cadernid a chysondeb asesiadau effaith ar gydraddoldeb; ac;
  - ystyried sut mae penderfyniadau cyllidol yn effeithio'n neilltuol ar blant sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.

## Argymhelliad 6

### Effaith newidiadau a gyflwynwyd drwy'r Ddeddf Diwygiad Lles a Gwaith yn y DU (erthyglau 3(1), 26 a 27)

- 11 I sicrhau cydymffurfiaeth â'i goblygiadau CRC – yn neilltuol Erthygl 3(1) o les y plentyn, Erthygl 4 ar fesurau priodol ar gyfer gweithredu'r hawliau a amlygir yn y CRC, Erthygl 26 yn ymwneud â nawdd gymdeithasol, ac Erthygl 27 ar hawliau plant i gael safon byw boddhaol – argymhella EHRC y dylai Llywodraeth y DU:
- fonitro gwir effaith y mesurau diwygio lles a gyflwynwyd drwy'r Ddeddf Diwygiad Lles a Gwaith 2016 yn erbyn ei goblygiadau CRC yr UN, ac adolygu'r ddeddfwriaeth yn unol ag unrhyw effeithiau negyddol a amlygwyd;
  - cynnal rhagor o waith dadansoddi ar effaith y cap budd-dal ar hawl plant i gael safon byw boddhaol, yn cynnwys plant o grwpiau neilltuol a all wynebu gwahaniaethu anuniongyrchol;
  - yn dilyn dileu targedau statudol ar gyfer lleihau tlodi plant, ystyried ffyrdd gwahanol o ganolbwyntio gwaith Llywodraeth y DU er mwyn lleihau tlodi plant a chynig atebolrwydd ar gyfer cynnydd; ac
  - oedi ar weithredu'r uchafswm o ddau blentyn wrth hawlio credydau treth plant neu'r elfen blant o Gredyd Cynhwysol hyd nes y cynhelir asesiad effaith llawn. Dylai'r asesiad effaith ymdrin ag:
    - effaith bosib y newidiadau hyn ar bobl ethnig leiafrifol penodol ac ar deuluoedd o grefydd neu gredoau neilltuol,
    - sut y cyflawnir nodau dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, a
    - sut y caiff yr effaith ei monitro a'i thacio os amlygir effaith negyddol ar ôl gweithredu.

## Argymhelliad 7

### Effaith diwygio nawdd cymdeithasol ar blant yn y DU (Erthyglau 3(1), 4, 26 a 27)

- 12 Er mwyn penderfynu sut mae Llywodraeth y DU yn gweithredu'n unol ag Erthyglau 3(1), 4, 26 a 27 o'r CRC ac a ydyw'n gwneud hynny, barn yr EHRC yw y dylai Llywodraeth y DU gynnal asesiad effaith cronus ar yr ystod lawn o ddiwygiadau nawdd cymdeithasol a gyflwynwyd rhwng 2010 a 2015 ar blant, yn cynnwys y rhai sydd ag anabledd neu sydd o grŵp lleiafrifol ethnig.
- 13 Dylai Llywodraeth y DU ystyried yr effeithiau hyn yn ofalus, yn ogystal â'r pryderon a godwyd mewn penderfyniad ar achos yng Ngoruchaf Lys y DU yn 2015 ynghylch cydymffurfiaeth y cap budd-dal cartref ag Erthygl 3 (1) o'r CRC â lles y plentyn ym mhob penderfyniad ariannol a wneir i'r dyfodol.

## Argymhelliad 8

### Tlodi plant yn y DU (Erthyglau 4 a 27)

- 14 Er mwyn gwireddu'n raddol hawl plant i gael safon byw boddhaol, yn unol ag Erthyglau 4 a 27 o'r CRC, ac yn unol â'r argymhellion a wnaed gan Swyddfa'r Comisiynydd Plant a'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant, dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod yr ymdrechion i ymdrin â thlodi mewn gwaith, a gwelliannau mewn amodau gwaith, yn elfennau craidd o'i gwaith wrth ymateb i dlodi plant.
- 15 Argymhella'r EHRC y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r grym sydd ganddi i ymdrin â'r her allweddol a amlygwyd yn adroddiad *A yw Cymru'n decach?* yr EHRC i wella amodau byw mewn cymunedau cydlynol, gyda blaenoriaeth i'r gwaith o leihau tlodi ymysg plant.

## Argymhelliad 9

### Tlodi bwyd (Erthyglau 6, 24, 27 a 28)

- 16 Gyda golwg ar barchu, diogelu a chyflawni'r hawl i gael digon o fwyd, fel rhan o hawl plant i gael safon byw boddhaol fel y diogelir gan Erthygl 27 o'r CRC, argymhella'r EHRC y dylai Llywodraeth y DU fyfyrion ymhellach ar fanteision y ddarpariaeth gyffredinol o brydau bwyd am ddim mewn ysgolion yn Lloegr. Byddai hyn yn unol â'r argymhelliad a wnaed yn y Cynllun Bwyd Ysgol gan gyfrannu hefyd at wella gweithredu hawliau plant i gael eu datblygu ac i gael iechyd ac addysg yn unol ag Erthyglau 6, 24 a 28 o'r CRC. Dylai Llywodraeth y DU o leiaf

weithredu argymhelliad y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Newyn i ddarparu prydau bwyd am ddim mewn ysgolion yn well ar gyfer y plant mwyaf anghenus, gan gynnwys plant tlawd o deuluoedd sy'n gweithio.

## Argymhelliad 10

### Gofal plant a gweithio hyblyg (Erthygl 27)

- 17 Er mwyn bodloni anghenion holl rieni sydd angen gofal plant er mwyn medru gweithio ac, wrth wneud hynny, gyfrannu at gyflawni hawl plant i gael safon byw boddhaol yn unol â'r hyn a ddiogelir gan Erthygl 27 o'r CRC, dylai Llywodraeth y DU gymryd camau pellach i ymdrin â problemau sylweddol o ran argaeledd a fforddiadwyedd gofal plant a reoleiddir yn gywir, gan gynnwys drwy:
- gasglu data (wedi'i ddadgyfuno gan nodwedd a ddiogelir) ar blant sy'n cael addysg gynnar neu ofal plant am ddim yn Lloegr, a chyflwyno'r canlyniadau hynny yn ôl i ysgolion ac awdurdodau lleol i'w helpu i dargedu ymyriadau gyda'r nod o hyrwyddo addysg a gofal plant am ddim i'r rhai a fyddai'n elwa fwyaf ohono (fel y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol tlawd a rhai lleiafrifoedd ethnig);
  - cyflwyno cynllun absenoldeb rhieni cwbl hyblyg lle gall mamau a thadau gael eu hawliau unigol eu hunain, a sicrhau'r gallu i gael a chymryd absenoldeb rhiant mewn modd mwy cyfartal, yn unol â'r hyn a amlinellir yng nghyflwyniad yr EHRC ar y Bil Plant a Theuluoedd (yn cynnwys gwneud absenoldeb rhiant a rennir yn hawl nad yw'n ddiwynol ar hyd gwasanaeth, gan alluogi i absenoldeb newydd gael ei gymryd mewn modd hyblyg, ac adolygu'r penderfyniad i beidio â chadw hawliau i dadau); a
  - sicrhau bod y cynnydd a gynigir ar gyfer y ddarpariaeth o ofal plant ar gyfer rhai tair a phedair oed yn Lloegr yn cael ei ariannu'n ddigonol ac yn darparu gofal plant o safon uchel i bob plentyn, gan gynnwys plant anabl a phlant sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig eraill.
- 18 Argymhella'r EHRC y dylai Llywodraeth Cymru ymdrin â'r brif her a amlygir yn *A yw Cymru'n Decach?*, er mwyn cynnyddu'r mynediad at ofal (gan gynnwys gofal plant) i blant. I gyflawni hyn, rhaid sicrhau bod gofal plant yng Nghymru yn cael ei ariannu'n ddigonol ac o safon uchel ar gyfer pob plentyn, yn cynnwys plant sydd â nodweddion gwarchoddedig.

## Argymhelliad 11

### Hawl plant i gael tŷ 27)

- 19 Er mwyn gwireddu hawl plant i gael safon byw boddhaol, yn cynnwys yr hawl i gael tŷ boddhaol dan Erthygl 27 o'r CRC, ac i ymateb i'r pryderon a godwyd gan CRC yr UN yn ei Restr o Bryderon ar y DU, dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau:
- i leihau'r nifer o deuluoedd gyda phlant yn byw mewn llety dros dro a rennir, yn cynnwys llety Gwely a Brecwast a hosteli, a sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu llety mwy addas cyn pen y cyfnod o chwe wythnos yn unol â'r gyfraith;
  - sicrhau nad yw awdurdodau lleol yn Lloegr yn rhoi teuluoedd a arweinir gan rai 16 a 17 oed, mewn llety Gwely a Brecwast mwyach; a
  - gwella'r gwaith o gasglu data ar ddigartrefedd ymysg rhai 16 a 17 oed, yn cynnwys y nifer a gyflwyna eu hunain yn ddigartref i'w hawdurdod lleol, a gwella'r cymorth a gânt.

## Argymhelliad 12

### Mynediad at ofal iechyd meddwl i blant (Erthyglau 23, 24 a 25)

- 20 Er mwyn ymdrin â'r bylchau wrth weithredu hawliau plant i fod yn iach dan Erthyglau 23, 24 a 25 o'r CRC o ran mynediad plant at wasanaethau iechyd meddwl a gwaith yr heddlu o gadw plant dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, argymhella'r HRC y dylai Llywodraeth y DU:
- sicrhau bod cyllid i grwpiau comisiynu clinigol ddarparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Glaslencynnaidd yn bodloni'r galw (cynyddol) yn Lloegr;
  - gweithredu argymhellion Pwyllgor Iechyd y Tŷ Cyffredin, yn cynnwys argaeledd data ar iechyd meddwl plant, blaenoriaethu ymyrraeth gynnar, a gwella gwasanaethau cleifion allanol yn Lloegr; ac
  - diwygio Deddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn sicrhau na fydd hi'n bosibl cadw plant mewn celloedd heddlu mwyach, dan Adran 135 neu Adran 136 o'r Ddeddf honno.
- 21 Argymhella'r EHRC y dylai Llywodraeth Cymru ymateb i'r her i wella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chefnogi pobl sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael, yn unol â'r hyn a amlinellir yn yr adroddiad *A yw Cymru'n Decach?*, gan sicrhau bod Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Glaslencynnaidd yn bodloni'r galw.

## **Argymhelliad 13**

### **Hawl i gael addysg: Derbyniadau yn ystod y flwyddyn yn Lloegr (Erthyglau 3, 28 a 29)**

- 22 Gyda golwg ar wella gweithredu hawliau plant i gael addysg dan Erthyglau 28 a 29 o'r CRC, ac i'w lles fod yn brif ystyriaeth dan Erthygl 3, barn yr EHRC yw y dylai Llywodraeth y DU gydweithio ag ysgolion ac awdurdodau lleol yn Lloegr i gasglu data am gyffredinrwydd derbyniadau yn ystod y flwyddyn yn Lloegr, a ddadgyfunwyd gan gymhwysedd nodweddig warchoddedig bwyd am ddim mewn ysgolion, a hyd yr oedi mewn lleoliadau a'r rhesymau dros hynny.
- 23 Awgryma'r EHRC y dylai Llywodraeth y DU gydweithio ag awdurdodau perthnasol i ddadansoddi'r data a gasglwyd, adnabod cysylltiadau â darpariaethau gwasanaeth eraill (fel tai) a diwygio polisiau i gydfynd â hynny i sicrhau eu bod yn unol ag Erthyglau 3, 28 a 29 o'r CRC.

## **Argymhelliad 14**

### **Hawl i gael addysg: Cronfa Fwrsari 16-19 yn Lloegr (Erthygl 28)**

- 24 Er mwyn gwella gweithredu hawl plentyn i gael addysg ar sail cyfle cyfartal yn unol â'r hyn a ddiogelir gan Erthygl 28 o'r CRC, dylai Llywodraeth y DU sicrhau y dylai sefydliadau addysg Saesneg sy'n cael dyraniadau bwrsari gwblhau blychau data ar gymorth i fyfyrwyr yn y Cofnod Dysgwr Unigoleddig (ar gyfer addysg bellach) a'r cyfrifiad ysgol, gan felly alluogi monitro dibynadwy o'r nifer o fyfyrwyr sydd â nodweddion gwarchoddedig a dderbynnir.

## **Argymhelliad 15**

### **Hawl i gael addysg: Plant ag anableddau ac anghenion addysg arbennig yn Lloegr (Erthyglau 23, 28 a 29)**

- 25 Er mwyn gwella gweithredu Erthyglau 23, 28 a 29 o'r CRC o safbwynt hawl plant ag Anableddau ac Anghenion Addysgiadol Arbennig i gael addysg (SEND), argymhella EHRC y dylai Llywodraeth y DU gynnal adolygiad o God Ymarfer SEND cyn pen pum mlynedd ers ei fodolaeth. Dylai'r adolygiad hwn geisio gwerthuso a yw'r gwelliannau a amlinellwyd yng Nghod Ymarfer SEND a Deddf Plant a Theuluoedd 2014 wedi eu sicrhau yn ymarferol gan sicrhau ei weithrediad hefyd mewn materion yn ymwneud â chyfiawnder ieuencid. Dylai Llywodraeth y DU ymateb yn gyflym ar ganfyddiadau'r adolygiad hwn. Dylai hyn gynnwys



gweithredu unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i God Ymarfer SEND a Deddf Plant a Theuluoedd 2014.

## **Argymhelliad 16**

### **Hawl i gael addysg: Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC) yn Lloegr (Erthyglau 12 a 28)**

- 26 Gyda golwg ar wella gweithredu'r hawl i gael addysg ar sail cyfle cyfartal, yn unol ag Erthygl 28 o'r CRC, argymhella'r EHRC y dylai Llywodraeth y DU ymdrechu i ganfod achosion yr anghyfartalwch rhwng LAC a lwyddodd i gael o leiaf pum gradd TGAU A\*-C â'r rhai nad ydynt yn LAC, a gweithredu Adran 58 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 er mwyn caniatáu i gynlluniau peilot gael eu datblygu i alluogi a chefnogi plant i apelio yn erbyn penderfyniadau ynghylch Anghenion Addysgiadol Arbennig a chyflwyno achosion o wahaniaethu ar sail anabled. Byddai hyn o gymorth hefyd wrth wireddu hawl plant i gael gwrandawriad mewn trafodaethau sy'n effeithio arny'n nhw, yn unol ag Erthygl 12 o'r CRC.

## **Argymhelliad 17**

### **Hawl i gael addysg: Plant Sipsiwn, Roma a Theithiol yn y DU (Erthygl 28)**

- 27 Gyda golwg ar wella gweithredu'r hawl i gael addysg ar sail cyfle cyfartal, yn unol ag Erthygl 28 o'r CRC, argymhella'r EHRC y dylai Llywodraeth y DU:
- ystyried camau pellach i adnewyddu'r ymrwymadau a wnaed gan y Gweithgor Gweinidogol trawslywodraethol ar leihau anghydraddoldebau a brofir gan Sipsiwn a Theithwyr, yn enwedig er mwyn delio â bylchau cyrhaeddiad addysgol parhaus rhwng plant Sipsiwn, Roma a Theithiol o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol; a
  - mabwysiadu strategaeth integreiddio cenedlaethol Roma yn canobwyntio ar fynediad at addysg, cyflogaeth, gofal iechyd a thai, mewn cydweithrediad ac yn gydlynol â gweinyddiaethau datganoledig. Dylai'r strategaeth hon ategu'r ymrwymadau a wnaed ar lefel UE ar integreiddiad Roma, a dylai amlinellu amcanion clir a mesuradwy er mwyn gwella bywydau'r Roma a'i thrwytho drwy gynlluniau rhaglenni llywodraethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

## **Argymhelliad 18**

### **Hawl i gael addysg: Cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru**

- 28 Gyda golwg ar leihau anghydraddoldeb yng Nghymru, argymhella'r EHRC y dylai Llywodraeth Cymru weithredu er mwyn ymateb i'r her addysgiadol allweddol a amlygwyd yn *A yw Cymru'n Decach?*, i gau'r bylchau cyrhaeddiad mewn addysg, gan ganolbwyntio'n neilltuol ar gau bylchau cyrhaeddiad drwy godi lefelau cyrhaeddiad plant sy'n cael Prydau Bwyd Ysgol Am Ddim, Plant gydag Anghenion Addysgiadol Arbennig (SEN), plant sy'n derbyn gofal a phlant Sipsiwn a Theithiol.

## **Argymhelliad 19**

### **Gwaharddiadau ysgol a darpariaethau amgenach yn Lloegr (Erthyglau 3, 12, 28 a 29)**

- 29 Yn unol ag Erthyglau 3, 28 a 29 o'r CRC, argymhella'r EHRC y dylid defnyddio'r mesur disgyblu o eithrio parhaol neu dros dro fel y dewis olaf un ac y dylai Llywodraeth y DU wneud hyn yn gwbl amlwg mewn unrhyw ganllaw a gyhoeddir ganddi.
- 30 Rhaid i'r broses o ddarparu addysg amgen i ddisgyblion eithriedig ddigwydd yn brydlon, mewn modd tryloyw ac effeithiol, a bod er lles y plentyn. Dylai Llywodraeth y DU sefydlu cofnod canolog o'r holl blant yn Lloegr nad oes ganddynt fynediad at addysg yn y ffordd arferol. Dylai hyn gynnwys yr holl sefydliadau addysgiadol, gan gynnwys academiau ac ysgolion di-dâl, i sicrhau bod anghenion pob plentyn yn cael eu bodloni.
- 31 Yn unol ag Erthyglau, 3, 12, 28 a 29 o'r CRC, argymhella'r EHRC y dylai Llywodraeth y DU estyn yr hawl i blant dan 16 oed gael gwrandawriad cyn unrhyw eithriad ynghyd â'r hawl i apelio yn erbyn eithriadau parhaol a dros dro. Dylid rhoi cyngor cyfreithiol i blant o'r fath ynghyd â chymorth drwy'r broses apel neu hawlio, sydd yn gymorth annibynnol o unrhyw awdurdod lleol ac ag adnoddau digonol.

## **Argymhelliad 20**

### **Bwlio ar sail hunaniaeth mewn ysgolion yn Lloegr (Article 29)**

- 32 Er mwyn cefnogi gweithredu Sylw Cyffredinol 1 CRC yr UN ar y nodau addysgiadol yn unol ag Erthygl 29 o'r CRC, argymhella'r EHRC y dylai Llywodraeth y DU:

- ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion yn Lloegr gasglu data ansoddol a meintiol ar fwlio ar sail hunaniaeth ar gyfer holl nodweddion gwarchoddedig;
- sicrhau bod penaethiaid ysgolion yn Lloegr yn gwneud ymyriadau wedi eu targedu i ddelio â mathau penodol o fwlio ar sail hunaniaeth sy'n digwydd yn eu hysgolion; ac
- asesu effaith ymyriadau, adolygu canllawiau a gofynion yn ôl yr angen, monitro cynnydd a chyfleu'r rhain i awdurdodau lleol.

## Argymhelliad 21

### Addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd yn Lloegr (Erthygl 29)

33 Er mwyn cefnogi gweithredu Sylw Cyffredinol 1 CRC yr UN ar y nodau addysgiadol yn unol ag Erthygl 29 o'r CRC, argymhella'r EHRC y dylai Llywodraeth y DU:

- wneud Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd (PSHE) yn bwnc statudol, fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn Lloegr;
- gwella safon PSHE a sicrhau ei bod yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau plant dan y Confensiwn, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â thrais yn erbyn menywod a merched;
- gwerthuso'r gwaith presennol yn y maes hwn, gan rannu'r gwersi a ddysgwyd ledled y DU i sicrhau bod ymyriadau'r dyfodol yn effeithiol.

## Argymhelliad 22

### Cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr (Erthyglau 3, 12, 37 a 40)

34 Argymhella'r EHRC bod Llywodraeth y DU:

- yn ailystyried codi'r oed o gyfrifoldeb troseddol yng Nghymru a Lloegr yn unol ag Erthygl 40(3) o'r CRC;
- gweithredu'r argymhellion canlynol o Ymchwiliad y Seneddwyr Annibynnol i Weithrediad ac Effeithiolrwydd y Llys Ieuenctid, mewn perthynas â system y Llys Seisnig, er mwyn sicrhau y gwireddir Erthyglau 3, 12, 37 a 40 o'r CRC yn llawn. Yn benodol, dylai:
  - sicrhau bod plant sy'n ddifffynyddion yn cael gwrandawriad mewn llys ieuenctid bob tro yn hytrach na llys oedolion,

- weithredu darpariaethau statudol ac adnoddau angenrheidiol i alluogi plant mewn llysoedd ieuencid i gael y gefnogaeth i fedru deall a chyfranogi'n llawn mewn gwrandawiadau, a
- pheilota dull o ddatrys problemau mewn llysoedd ieuencid sydd â'r nod o ddelio â'r materion sylfaenol ynghylch troseddu gan blentyn a sicrhau ei les;
- sicrhau bod cyfarwyddiadau'r ymarfer ar driniaeth diffynyddion bregus yn rhwymo Llysoedd y Goron o safbwynt plant sy'n parhau i gael eu delio â nhw drwy'r system cyfiawnder troseddol i oedolion;
- cynnig hyfforddiant ieuencid i farnwyr llysoedd ynadon a rhanbarth sydd yn y system cyfiawnder troseddol i oedolion sy'n parhau i ddelio â phlant;
- dileu'r ddarpariaeth yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015 sy'n caniatáu'r defnydd o ataliad mewn colegau diogel am drefn a disgyblaeth da, yn unol â'r argymhellion gan y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol, UN CRC a Chonfensiwn yr UN rhag Artaith, gan y byddai'r defnydd o'r ddarpariaeth hon yn creu pryderon difrifol wrth geisio gweithredu Erthygl 37 (c) o'r CRC (yr hawl sydd gan unrhyw blentyn sydd wedi colli ei ryddid i gael ei drin yn ddyngarol, ag urddas a pharch);
- adnabod achosion y cynnydd yn y defnydd o ataliaeth yn erbyn plant sydd wedi colli eu rhyddid, ac amlinellu strategaeth ar gyfer delio â'r cynnydd hwn mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddiant Diogel;
- cynnal ei hadolygiad ei hun o weithredu'r system Lleihau a rheoli ataliaeth gorfforol (MMPR) o reoli ymddygiad, sy'n delio a phryderon a godwyd gan HMIP ynglŷn â'r system MMPR;
- gweithredu argymhellion HMIP yn dilyn ymchwiliad o Ganolfan Hyfforddiant Ddiogel Medway (STC) i:
  - sefydlu comisiynydd a all gynnig trosolwg ychwanegol ynglŷn a llywodraethu STC Medway, a
  - sicrhau bod yr holl staff sydd mewn cyswllt rheolaidd â phlant ar draws yr ystâd gadw yn gwisgo camerâu, a bod disgwyl iddynt gofnodi pob digwyddiad 'sy'n defnyddio grym';
- gweithredu argymhellion y Comisiynydd Plant yn Lloegr ynglŷn â gosod plant ar wahân yn y ddalfa. Yn benodol, trwy:
  - wahardd unrhyw arfer sy'n cadw plant ar wahân ar eu pen eu hunain;
  - sicrhau pan roddir plant ar wahân fel ffordd o reoli ymddygiad, y gwneir hynny am y cyfnod lleiaf posib;
  - sicrhau bod plant sydd yn y ddalfa yn treulio wyth awr y diwrnod o leiaf allan o'r gell neu ystafell ac mewn cyswllt â'u cyfoedion. Os bydd plant yn cynnig perygl o niwed ar unwaith i blant eraill neu eu hunain, dylent

- dreulio wyth awr y diwrnod o leiaf allan o'r gell neu ystafell ac mewn cyswllt â staff, teulu ac ymwelwyr proffesiynol; ac
- adolygu pam fod grwpiau neilltuol o blant bregus, yn cynnwys plant du ac o linachau cymysg, plant ag anabledd, plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd mewn perygl o gyflawni hunanladdiad, wedi eu gor-gynrychioli ymysg plant sy'n cael eu rhoi ar wahân; a
  - sicrhau bod yr adolygiad parhaus o'r system cyfiawnder ieuencid yng Nghymru a Lloegr yn dechrau gyda'r egwyddor y dylai cadw plant yn y ddalfa fod yn ddewis olaf, gan ystyried yr argymhellion a wnaed yma ar oed cyfrifoldeb troseddol, y defnydd o lysoedd ieuencid a llysoedd oedolion i ddwyn achos yn erbyn plant, a'r defnydd o ataliaeth a gosod ar wahân yn y system cyfiawnder ieuencid.

## **Argymhelliad 23**

### **Cadw plant mewnfudol mewn dalfayn y DU (Erthygl 37)**

- 35 O ystyried y gallai parhau i gadw plant mewn dalfeydd mewnfudol, megis mewn dalfeydd dros dro, fod yn anghyson â hawl y plentyn i beidio â cholli ei ryddid yn anghyfreithlon neu'n ormesol dan Erthygl 37(b), argymhella'r EHRC y dylai Llywodraeth y DU:
- ymrwymo i ddod â'r arfer o gadw plant mewn dalfeydd mewnfudol i ben, a
  - chymryd camau ar unwaith i weithredu argymhellion Barnado's i wella'r broses cyn ymadael ar gyfer plant a theuluoedd.

## **Argymhelliad 24**

### **Masnachu plant yng Nghymru a Lloegr (Erthygl 35 a'r Protocol Dewisol ar Werthu Plant a Phuteindra Plant a Phornograffi Plant)**

- 36 Er mwyn gwella'r gydymffurfiaeth â dyletswydd y Wladwriaeth i atal gwerthu neu fasnachu plant dan Erthygl 35 o'r CRC, a'r Protocol Dewisol ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant, argymhella'r EHRC y dylai Llywodraeth y DU:
- adolygu Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, yn cynnwys pwerau'r Comisiynydd Gwrth-Gaethwasiaeth, cyn pen pum mlynedd ers ei ddyfodiad er mwyn penderfynu a yw'n gweithredu yn ôl y bwriad gwreiddiol;

- diwygio'r ddeddfwriaeth yn ôl yr angen er mwyn delio â bylchau cyson mewn cydymffurfiaeth yng ngofynion hawliau dynol rhyngwladol Llywodraeth y DU, a amlygwyd yn yr adolygiad;
- hwyluso gweithredu'r cynlluniau peilot a ddyluniwyd i brofi a yw Strategaeth Caethwasiaeth Fodern Llywodraeth y DU yn cynnig datrysiadau cadarn i'r problemau a amlygwyd yn yr adolygiad o'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, yn cynnwys y ddarpariaeth o gyngor cyfreithiol ar yr adeg pan amlygir dioddefwyr posib o fasnachu pobl; a
- sicrhau bod y Rheoliadau sy'n manylu ar y darpariaethau ar gyfer adnabod a chefnogi dioddefwyr yn delio â'r angen am:
  - broses apelio ffurfiol;
  - dyletswydd statudol glir i gofnodi ac adrodd ar blant a fasnachwyd sydd ar goll o'u manau gofal;
  - mae angen eglurdeb ar y pwynt bod angen amheuaeth gredadwy yn unig i sbarduno'r ddarpariaeth o gymorth a chefnogaeth (gan gynnwys cymorth cyfreithiol) i ddioddefwyr; a
  - gofyniad i awdurdodau cyhoeddus (yn cynnwys awdurdodau iechyd, ysgolion, carchardai, gwasanaethau prawf, awdurdodau cymwys a sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnal swyddogaeth gyhoeddus) gofnodi ac adrodd ar ddioddefwyr yr honnir eu bod yn cael eu masnachu.